# CA2 Cymraeg - Ysgrifennu perswadiol

## Gweithgaredd 1

1. **Prynwch y dolenni diogel yma i'ch helpu i gamu i mewn i'r bath.**
   Mae'r frawddeg yn debygol o apelio at yr henoed.

2. **Cyngor teithio cyn cyngherddau Ed Sheeran yng Nghaerdydd.**
   Mae'r frawddeg yn debygol o apelio at ymwelwyr sy'n teithio i Gaerdydd i weld Ed Sheeran yn perfformio.

3. **Dewch ar eich mis mêl, am brofiad bythgofiadwy, i Dde Affrica.**
   Mae'r frawddeg yn debygol o apelio at bobl sy'n chwilio am rywle i fynd ar eu mis mêl.

4. **Dechreuwch y bore gyda choffi a thost am 99c!**
   Mae'r frawddeg yn debygol o apelio at rywun sy'n ceisio arbed arian.

5. **Arwerthiant arbennig o geir moethus a chychod hwylio yn Mayfair, Llundain.**
   Mae'r frawddeg yn debygol o apelio at rywun sydd eisiau moethusrwydd.

6. **Dewch am daith y tu ôl i'r llenni yn un o amgueddfeydd gorau Paris.**
   Mae'r frawddeg yn debygol o apelio at ymwelwyr sy'n teithio i Baris.


© BBC